Ysgrifennydd y Cyngor/Secretary to the Council
L E Williams BA PhD

Cofrestrfa'r Brifysgol Rhodfa'r Brenin Edward VII Parc Cathays Caerdydd CF10 3NS
University Registry King Edward VII Avenue Cathays Park Cardiff CF10 3NS

☎ (029) 2078 6252 Ffacs/Fax (029) 2078 6212 e-bost/e-mail lewilliams@wales.ac.uk
Ysgrifennydd Cyffredinol/Secretary General J D Pritchard MA

PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES

Cynog Dafis AC
Cadeirydd Pwyllgor Addysg Ôl 16
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

cc. Holl Aelodau eraill y Cynulliad

Ein cyf/Our ref: LEW/lew/
Eich cyf/Your ref:

E-bost/Email:
lewilliams@wales.ac.uk

4 Ebrill 2000

Annwyl Mr Dafis

**Adolygiad Addysg Uwch Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae Cyngor y Brifysgol yn ymwybodol y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud adolygiad o addysg uwch yn ddiweddarach eleni. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r mater hwn, ac i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar "y Posibiliadau ar gyfer Cyfuno Sefydliadau ar y Lefel Addysg Uwch" gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ym mis Medi 1999.

Mae'n bleser gan y Cyngor anfon ei ddatganiad o weledigaeth a'i sylwadau ar adroddiad CCAUC. Er hynny, mae'r Cyngor yn ymwybodol y gall fod yna ddatblygiadau pellach cyn y bydd y Cynulliad yn troi at y mater hwn (yr ydym yn deall mai ym mis Medi y bydd y rhain yn ôl pob tebyg) ac mae'n bosibl, felly, y bydd y Cyngor yn dymuno cyflwyno sylwadau ychwanegol wedi hynny.

Yn gywir

Dr L E Williams

# Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru: Cyflwyniad Prifysgol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Prifysgol Cymru yn y Mileniwm newydd – Datganiad o Weledigaeth
### Crynodeb Gweithredol

- Mae **Strwythur** Prifysgol Cymru wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae adolygiadau trylwyr o'i gweithrediadau wedi arwain at strwythur mwy datganoledig a nodir mewn **Fframwaith Academaidd** cytûn (1997) sy'n disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau'r organau canolog a'r aelod-sefydliadau yn eu trefn. Mae'r Brifysgol hefyd wedi gwneud ei phrosesau penderfynu yn gliriach.

- Ar y cyd â'r broses hon, mae'r Brifysgol wedi cynyddu ei **haelodaeth sefydliadol** sy'n ymrannu'n ddau gategori: Sefydliadau Cyfansoddol, Colegau Prifysgol. Rhestrir yr aelod-sefydliadau a Sefydliadau Cysylltiol y Brifysgol yn llawn yn y cyflwyniad. Mae'r categorïau yn adlewyrchu amrywiaeth o ran cenhadaeth a phrofiad, ac adlewyrchir y patrwm hwn yn eu priod swyddogaethau yn llywodraeth y Brifysgol.

- Mae'r Brifysgol wedi gwella ei safle fel y prif **gorff dyfarnu graddau** yng Nghymru. O'r tri ar ddeg o Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, dim ond Prifysgol Morgannwg sydd ddim yn cynnig cymwysterau'r Brifysgol. Mae gan y Brifysgol rôl sylweddol hefyd wrth ddilysu cyrsiau ledled y byd.

- Mae'r Brifysgol yn hybu **Cydweithredu Academaidd** ac, os a phan fydd ei hadnoddau ei hun yn caniatáu, mae wedi defnyddio **Cronfa Nawdd Academaidd** at y diben hwn.

- Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'i statws fel **sefydliad cenedlaethol**, sy'n statws y mae'n dymuno ei gadw. Mae'n anelu at gynnal treftadaeth ieithyddol a diwylliannol y wlad ac at hybu gwaith uwch mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae'n effro i faterion dysgu gydol oes ac ehangu'r cyfle i gael addysg. Mae'n cydnabod bod rhaid creu cyfoeth a throsglwyddo gwybodaeth ond mae'n pwysleisio hefyd y cyfraniad at ansawdd bywyd a wneir gan ddisgyblaethau nad oes iddynt berthnasedd galwedigaethol uniongyrchol.

- Mae'r Brifysgol yn awyddus i daro nodyn cadarnhaol a chymryd rhan mewn deialog ar ddyfodol addysg uwch yng Nghymru. Deialog yw hon lle mae'n rhaid i'w haelod-sefydliadau ddatgan eu safbwyntiau eu hunain mewn perthynas â chydweithredu/cyfuno yn y dyfodol. Mae'n nodi Adroddiad CCAUC â diddordeb. Mae'n nodi'r sylwadau a gyflwynir ynghylch 'diogelu' Prifysgol Morgannwg. Gan gydnabod pwysigrwydd y berthynas hon at y dyfodol, mae'n dymuno clywed mwy am y rhesymau dros y datganiadau ar y mater hwn yn yr Adroddiad.

- Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno nifer o sylwadau manwl ar yr Adroddiad, er nad yw'n cymryd arni ei bod wedi cyflwyno sylwadau arno fesul paragraff. O ran **maint**, mae'n cydnabod realiti'r sefyllfa yng Nghymru ond mae'n awgrymu ei bod yn bosibl nad oes cydberthynas anochel rhwng maint a hyfywedd a bywiogrwydd academaidd.

# Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru: Cyflwyniad Prifysgol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## 1. Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Cymru yn croesawu'r cyfle i gyflwyno'i sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'w hystyried yn ystod yr adolygiad sydd gan y Cynulliad ar y gweill o addysg uwch yng Nghymru. Mae'r Brifysgol wedi ystyried Adroddiad i'r Cynulliad ar "Y Posibiliadau ar gyfer Cyfuno Sefydliadau ar y Lefel Addysg Uwch" (Medi 1999) a gyflwynwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Er hynny, man cychwyn yn unig yw'r ddogfen honno mewn trafodaeth y mae holl sefydliadau addysg uwch Cymru yn awyddus i ddatblygu eu syniadau eu hunain ynddi ynghylch y ffordd orau ymlaen.

# Prifysgol Cymru yn y Mileniwm Newydd – Datganiad o Weledigaeth

## 2. Swyddogaeth Prifysgol Cymru: Ei Strwythur a'i Haelodaeth

2.1 Dathlodd Prifysgol Cymru ei chanmlwyddiant ym 1993. Gan hynny, mae wedi chware rhan bwysig yn hanes modern Cymru ac mae'n hyderus y bydd yn parhau i wneud hynny. Gan gydnabod bod y sector addysg uwch yng Nghymru yn wynebu heriau newydd, mae wedi mynd ati yn egnïol i ailwampio'i strwythurau yn y 1990au. Nid oes ganddi awydd i laesu ei dwylo fel sefydliad cenedlaethol, er pwysiced y swyddogaeth honno, ond yn hytrach edrych ar ffyrdd i'w strwythur ffederal, o'i drin yn iawn, barchu amrywiaeth ei haelodau, nodi manteision cydweithredu, ac ysgogi ymchwil o ansawdd uchel ac agenda dysgu gydol oes yng Nghymru. Hwyrach nad yw graddfa'r "datganoli" sydd wedi bod wedi ei chydnabod yn llawn, ond ar yr un pryd mae yna ymwybyddiaeth yn y Brifysgol o fanteision graddfa a manteision cyfeiriad strategol. Dyma amgylchedd deinamig y mae'n rhaid cysoni manteision y sefydliadau unigol a'u hamcanion cyffredin o'i fewn drwy'r amser. Mae'n senario y bydd y Cynulliad Cenedlaethol ei hun yn ei adnabod yn gyflym.

2.2 Mae'r Brifysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i heriau'r 1990au mewn amgylchedd newydd ar gyfer ariannu, drwy gydnabod bod ei chryfder yn dibynnu ar ei haelod-sefydliadau, pob un â'i genhadaeth, ei hanes a'i ddyheadau ei hun. Mae'r sefydliadau hynny, yn eu tro, yn amrywio o ran maint ac amgylchiadau. Mae patrwm eu lleoliad yn adlewyrchu daearyddiaeth a hanes Cymru - ac ni ellir anwybyddu hyn mewn unrhyw ystyriaeth ar faint. Y gamp oedd datblygu strwythurau sy'n mynegi'r ddealltwriaeth bresennol o'r perthnasoedd hynny yn ddigonol. Yn amyneddgar ac yn gynhyrchiol, dyna y mae Prifysgol Cymru wedi ei sicrhau drwy benderfyniad i ddatganoli prosesau i'r mannau cyflwyno priodol, i ddileu dyblygu ymdrechion ac i wneud y dulliau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn gliriach. Parhau y mae'r gwaith yn yr holl feysydd hyn ond mae Fframwaith Academaidd y Brifysgol (1997) wedi ei dderbyn gan ei holl aelodau, ynghyd â'i oblygiadau ariannol a strwythurol. Mae'r ysbryd newydd hwn yn adlewyrchu cyd-ddealltwriaeth gan y Brifysgol yn ganolog, a chan y sefydliadau eu hunain, fod rhaid i'r cyfanwaith weithio er lles pob un.

2.3 Mae'n sicr bod y pwyslais hwn ar effeithlonrwydd a gwerth am arian yn esbonio ehangiad Prifysgol Cymru o ran ei maint ar ddiwedd y 1990au. Mewn gwirionedd, mae'r cyfuniad o brofiad sydd wedi ei gronni yn ganolog a bri rhyngwladol ei gradd, ynghyd â'r gydnabyddiaeth hon o amrywiaeth y sefydliadau a rhesymoli ei phrosesau penderfynu mewnol, wedi arwain at gynnydd yn ei haelodaeth. Mae **Aelod-Sefydliadau** y Brifysgol bellach yn ymrannu'n ddau gategori, **Sefydliadau Cyfansoddol** a **Cholegau Prifysgol.**

3.3 Fel y dangosir yn Adroddiad CCAUC, dylai cyfuniadau ddeillio o ddadansoddiad realistig gan y sefydliadau eu hunain. Er bod y Brifysgol yn amau na welir cyfuniadau ar y raddfa a anogir gan y Cyngor Cyllido, lle bydd cyfuno'n digwydd, bydd bodolaeth y Brifysgol ffederal yn cynnig cymorth, sadrwydd a fframwaith sefydlog ar gyfer gwarantu safonau academaidd yn ystod cyfnod o drawsnewid ac addasu.

## 4. Swyddogaeth Prifysgol Cymru: Hyrwyddo Cydweithredu Academaidd

Rhan o genhadaeth y Brifysgol yw hybu datblygiad cydweithredu academaidd rhwng yr aelod-sefydliadau a mynd ar drywydd cyd-fentrau newydd. Mae'r Brifysgol wedi rhoi symiau sylweddol **o'i hadnoddau ei hun** i mewn i Gronfa Nawdd Academaidd er mwyn rhoi hwb i raglenni cydweithredol ar draws yr aelod-sefydliadau. Bydd yn parhau i ddefnyddio'i gwybodaeth a'i phrofiad i hybu cyd-fentrau a hyd yn oed, o bosibl, i hyrwyddo'r "màs critigol" hwnnw nad yw ar gael mewn rhai meysydd ar hyn o bryd. Er hynny, cyfyngedig yw'r adnoddau hyn a rhaid i'r brifysgol ennill incwm er mwyn caniatáu'r hyn sydd wedi ei gyflawni. Un ffynhonnell o'r fath yw dyraniad sy'n gallu cael ei wneud weithiau o'r incwm **Dilysu**. Mae dilysu ei hun yn fenter gydweithredol sylweddol ar ran yr aelod-sefydliadau, ac yn ei sgil mae Prifysgol Cymru wedi ennill enw da iawn fel un o'r prif ddarparwyr yn y DU ac yn rhyngwladol.

## 5. Swyddogaeth Prifysgol Cymru: Ased Cenedlaethol Pendant

5.1 Mae Prifysgol Cymru yn parhau yn un o'r ychydig sefydliadau gwirioneddol genedlaethol sydd gan Gymru. Nid yw'r angen am sefydliadau o'r fath wedi lleihau gyda dyfodiad y Cynulliad – mae Cymru yn dal heb lawer o'r sefydliadau a gymerir yn ganiataol mewn cymdeithasau sydd wedi aeddfedu'n llawn. Gan hynny, bydd y Brifysgol yn ceisio parhau i wasanaethu'r genedl ac i wireddu ei hymrwymiad i helpu i ddiwallu anghenion addysgol ac economaidd Cymru ac i gynnal ei threftadaeth ieithyddol, diwylliannol a chenedlaethol. Mae'r Brifysgol hefyd am gyflawni ei rhwymedigaethau fel sefydliad dwyieithog ac annog defnyddio TG at y diben hwnnw. Er hynny, ni ddylai pwysigrwydd ei swyddogaeth ddiwylliannol arwain at y casgliad nad oes gan y Brifysgol ddiddordeb mewn hybu gwaith uwch mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol, gan drosglwyddo iddo bron y cyfan o'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a arferid gynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol (gan gynnwys ei bwerau sylweddol iawn o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992), yn her newydd: gyda strwythur pwyllgorau unigryw y Cynulliad, mae yna hefyd gyfleoedd anferth ar gyfer deialog ystyrlon a chyfrwng effeithiol ar gyfer dylanwadu ar bolisi. Mae Prifysgol Cymru yn edrych ymlaen at chwarae rhan gyflawn mewn trafodaethau cynhwysol ynghylch polisïau diwylliannol ac addysgol.

5.2 Mae'r Brifysgol yn effro i'r angen i hybu addysgu ac ymchwilio o'r radd flaenaf, ac i ddarparu ar eu cyfer, yn sefydliadau addysg uwch Cymru. Mae'n ymwybodol yn arbennig o bwysigrwydd yr ymchwil a'r medrau sy'n berthnasol i'r diwydiannau presennol ac o bwysigrwydd denu cyfalaf newydd i'w fuddsoddi yn yr ardaloedd llai ffyniannus sydd eisoes wedi eu nodi a'u cydnabod gan yr Undeb Ewropeaidd fel ardaloedd y mae arnynt angen cymorth. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol hefyd o'r angen i ymateb yn gadarnhaol i faterion dysgu gydol oes ac ehangu'r cyfle i gael addysg. Ar yr un pryd, mae'n pwysleisio mai cyrff awtonomaidd yw'r sefydliadau addysg uwch, a chanddynt draddodiad hir - y maent yn dymuno ei barhau – o ddatblygu eu hamcanion academaidd eu hunain. Mae Datganiad Cenhadaeth presennol Prifysgol Cymru ynghlwm, yn Atodiad A, ynghyd â disgrifiad o'i gwasanaethau canolog.

galondid yn y geiriau olaf hyn, ond erbyn i ni gyrraedd paragraffau 33 i 35 maent wedi eu disodli gan uniongrededd ystadegol unplyg, lle cymerir ei bod yn acsiomatig na fydd sefydliadau bach, yn rhinwedd eu natur, yn gallu cystadlu a darparu ansawdd yn eu haddysgu a'u hymchwilio. Mae angen trafod yr haeriad hwn yn drylwyr, ac edrych a all ansawdd, effeithlonrwydd a hyfywedd ariannol gael eu cysoni mewn sefydliadau sydd ychydig yn brin, ond nid yn rhy brin, o'r maint gorau canfyddedig, ac, os felly, sut.

- Am ei fod yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â maint cymharol fach y mwyafrif o'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, mae'r Adroddiad yn esgeuluso'r ffaith bod iechyd ariannol y sefydliadau hyn yn cael ei danseilio gan ostyngiad yn yr uned adnoddau a chan yr anghysondebau ariannu a geir rhwng Cymru a gweddill y DU – mae Cymru'n cael cryn dipyn yn llai o arian am bob myfyriwr neu fyfyrwraig nag ardaloedd daearyddol tebyg megis yr Alban, ac felly ni all gystadlu â hwy ar faes chwarae gwastad. Mae angen i'r Cynulliad gymryd y mater hwn i ystyriaeth, a chydnabod bod angen arian digonol i warantu safonau academaidd mewn addysg uwch ac i sicrhau y gall y sefydliadau ddenu a chadw'r staff a'r myfyrwyr gorau.

- Yn ôl pob golwg, mae'r Adroddiad yn credu bod cyfuniadau yn datrys y gwendidau y mae'n eu gweld yn y sector yng Nghymru ac yn wfftio cydweithredu fel ateb annigonol. Er hynny, nid yw'n darlunio manteision cyfuniadau posibl yn y dyfodol yn benodol. Er ei bod yn amau a all cyfuniadau ateb pob mater, mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallant fod yn fuddiol, o dan rai amgylchiadau. Mae angen dadlau'r achos o blaid pob cynnig penodol ar gyfer cyfuno drwy gyfeirio at amcanion clir ac asesiad o'r manteision a'r anfanteision.

- Nid yw CCAUC yn rhoi digon o sylw i effaith bosibl cydweithredu. Gall cydweithredu rhwng academyddion unigol a grwpiau o ymchwilwyr fod yn ffordd effeithiol o sicrhau arbedion graddfa a chyrraedd màs critigol, ac mae'n fwyaf tebyg o lwyddo pan yw'n deillio o berthnasoedd rhyngbersonol, sy'n ddilys ac organig, yn hytrach nag o bwysau o'r tu allan. Gall trefniadau mwy ffurfiol ar gyfer partneriaeth rhwng sefydliadau fod yn llwyddiannus hefyd. Er hynny, y gwir amdani yw mai ychydig gymhelliant sydd i sefydliadau gydweithredu'n effeithiol – ym maes ymchwil er enghraifft. Yn wir, mae'r methodolegau ariannu sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn pwyntio i'r cyfeiriad arall.

- Mae'r Brifysgol yn credu mai gyda chydsyniad llawn pob parti o dan sylw yn unig y gall cyfuniadau lwyddo. Gan hynny, mae'n croesawu datganiad CCAUC (paragraff 11) o blaid mentrau sy'n cychwyn o'r gwaelod i fyny ar gyfer cyfuno fel un sydd, ar yr wyneb o leiaf, yn galonogol. Er hynny, nid yw hyn yn gyson â'r casgliad (paragraff 39) y dylid annog "y sefydliadau i gymryd safbwynt mwy strategol" nac â'r rhagdybiaeth o blaid pump neu chwech o sefydliadau aml-genhadaeth cyffredinol (paragraff 35). Mae'r datganiadau hyn yn codi'r cwestiynau: Sut mae safbwynt strategol o'r fath i gael ei annog? a Pa annog a pha fygwth fyddai'n cael eu defnyddio? Mae'r ffaith bod CCAUC yn cynnig ymgynghori â'r sector ynghylch ***bwrw ymlaen*** â'r polisi hwn yn peri gofid - mae'r Brifysgol yn credu y dylai'r Cyngor Cyllido fod wedi ymgynghori â'r sector gyntaf ynghylch a yw polisi o'r fath yn briodol ai peidio.

- Bodolaeth amrywiaeth o sefydliadau yw un o gryfderau sector addysg uwch Cymru ac mae'n arwain at ddewis i fyfyrwyr a chleientau eraill, ac at fodloni anghenion y cymunedau lleol. Mae CCAUC wedi datgan yn aml ei fod o blaid sicrhau bod amrywiaeth y sector addysg uwch yng Nghymru yn parhau. Mae'n ailadrodd y farn hon yn yr Adroddiad (paragraffau 3, 8 a 33) ond heb roi syniad clir o sut y câi hyn ei gyflawni o dan y senario a gynigir. Pe câi addysg uwch yng Nghymru ei chrynhoi mewn pump neu chwech yn unig o sefydliadau "aml-genhadaeth, cyffredinol" mae'n amheus a ellid cadw amrywiaeth: mae'n ddigon posibl y byddai ieuo sefydliadau sydd â chenadaethau pur wahanol yn creu mwy o unffurfiaeth ar draws y sector.

# Cenhadaeth Prifysgol Cymru

Gwneir gwaith y Brifysgol yn unol â'r datganiad cenhadaeth canlynol:

**Mae Prifysgol Cymru yn mwynhau hunaniaeth arbennig fel prifysgol ffederal ac iddi chwe Sefydliad Cyfansoddol a dau Goleg Prifysgol, ac mae'n bodoli i gynnal eu gweithgareddau academaidd, a hi yw'r awdurdod dyfarnu graddau ar eu cyfer. Mae'r Brifysgol hefyd yn mwynhau cysylltiadau agos â sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru.**

**Cydweithrediad, partneriaeth a chyd-ddibyniaeth - wedi eu tymheru gan gydnabyddiaeth o faint awtonomiaeth y Brifysgol a'i haelodau fel ei gilydd - dyna yw hanfod ei Chenhadaeth. Nod strategol bras y Brifysgol yw helpu i greu'r amodau lle bydd ei haelod-sefydliadau, yn ogystal â'i hunedau academaidd a'i gwasanaethau canolog ei hun, yn cyflawni eu potensial llawn ac yn cynnal rhagoriaeth academaidd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r Brifysgol yn cefnogi gwaith academaidd ei haelodau ac yn ychwanegu gwerth ato drwy wneud y canlynol:**

- **gweithredu, fel y corff dyfarnu graddau, er mwyn sicrhau cynnal y safonau academaidd uchaf mewn perthynas â'i chymwysterau ac er mwyn cadw a diogelu eu henw a'u huniondeb;**
- **hybu datblygiad cydweithrediad academaidd rhwng yr aelod-sefydliadau a mynd ar drywydd mentrau newydd ar y cyd;**
- **darparu unedau a gwasanaethau academaidd a drefnir yn ganolog gan y Brifysgol;**
- **gweithredu fel fforwm ar gyfer mynegi golygweddau cyfunol y sefydliadau ar bolisi a strategaeth academaidd y Brifysgol;**
- **cyflwyno gwasanaethau gweinyddol academaidd effeithlon, cost effeithiol ac o ansawdd uchel ar gyfer ei haelod-sefydliadau.**

**Yng Nghymru, mae'r Brifysgol yn sefydliad cenedlaethol pwysig. Mae wedi ymrwymo i helpu i fodloni anghenion addysgol ac economaidd Cymru ac i ategu ei threftadaeth ieithyddol, diwylliannol, a chenedlaethol. O edrych y tu hwnt i'w chyfrifoldebau arbennig Cymreig, mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i'w rôl ryngwladol ac i wella ei safle ledled y DU a thros y môr.**

## 4. Neuadd Gregynog

Gregynog yw canolfan gynadledda breswyl y Brifysgol yng nghanolbarth Cymru. Yn sefyll mewn 750 erw o diroedd, mae Gregynog yn cael ei defnyddio drwy gydol y flwyddyn gan israddedigion, ôlraddedigion a staff y Brifysgol at amrediad eang o weithgareddau. Er ei bod wedi ei neilltuo at ddibenion addysgol yn bennaf, mae Gregynog yn lleoliad gwych hefyd ar gyfer cynadleddau, cyfarfodydd busnes a lletygarwch, gan fodloni cleientau lleol a chenedlaethol.

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r datganiad cenhadaeth canlynol ar gyfer Gregynog:

"Mae Prifysgol Cymru yn cynnal Neuadd Gregynog a'i thiroedd yn ganolfan breswyl a chanolfan addysg ddyddiol, yn bennaf ar gyfer myfyrwyr a staff y Brifysgol ac ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r cyfleusterau ar gael hefyd i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru y tu allan i'r Brifysgol ac i sefydliadau eraill at ddibenion addysgol. Mae Gregynog yn gartref hefyd ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, gan gynnwys Gwasg Gregynog (Gwasg gelfyddyd gain flaenllaw), Gŵyl Gerdd flynyddol Gregynog a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg. Mae'r Neuadd yn cadw presenoldeb y Brifysgol ym Mhowys ac mae'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer y gweithgareddau cydweithrediadol y mae'r Brifysgol yn ceisio eu hybu."

Mae'r Brifysgol wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd i Gregynog fabwysiadu swyddogaeth fel Canolfan flaenllaw ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru, i gydategu ei phrif swyddogaeth addysgol.